

Hanes - Ynysoedd Prydain

Atebwch UN cwestiwn o Adran A ac UN cwestiwn o Adran B.
Mae seren * yn nodi cwestiwn ar Hanes Cymru.

ADRAN A

1. Trafodwch bwysigrwydd ffynonellau annogfennol i hanesydd sy'n astudio'r oesoedd canol. Defnyddiwch enghreifftiau penodol.
2. A oes modd i haneswyr fod yn wrthrychol o gwbl wrth ysgrifennu am y gorffennol?
3. I ba raddau mae hi'n bosibl i haneswyr ddadorchuddio'r 'gwir' ynglŷn â digwyddiadau'r gorffennol?
4. I ba raddau y gellir defnyddio gwaith haneswyr i lywio trafodaethau gwleidyddol?
5. Pa heriau sy'n wynebu haneswyr wrth ysgrifennu hanes bywyd pobl gyffredin yn yr oesoedd canol, a sut y gellid goresgyn yr heriau hyn?
6. Ym mha ffyrdd y gall haneswyr ddefnyddio technolegau digidol yn eu hymchwil?

ADRAN B

Y Cyfnod Cynnar a'r Oesoedd Canol

7. Pa effaith a gafodd Concwest y Normaniaid ym 1066 ar Loegr?
8. Pam y trodd yr uchelwyr yn erbyn y Brenin Ioan (John)?
9. Pa effaith a gafodd Magna Carta ar rym brenhinoedd yn Lloegr yn y canol oesoedd uchel?
10. Pa effaith a gafodd Rhyfeloedd y Rhosynnau ar Loegr ar ddiwedd y canol oesoedd?
11. Pa effaith a gafodd y Pla Du ar Loegr ar ddiwedd y canol oesoedd?
12. Beth oedd achosion Gwrthryfel y Werin yn 1381?
13. I ba raddau yr oedd tywysogaeth Llywelyn ap Gruffudd yn ymgais i greu rhywbeth hollol newydd yng Nghymru?*
14. A yw cestyll Edward I yng Nghymru yn arwydd o'i nerth neu o'i wendid?*
15. Beth fu prif ganlyniadau Gwrthryfel Glyndŵr? *

... parhad

Y Cyfnod Modern Cynnar

16. I ba raddau y gellir ystyried bod Eglwys Lloegr yn ystod teyrnasiad Harri VIII yn Gatholigiaeth heb y Pab?
17. Beth oedd effeithiau tymor-byr penderfyniad Harri'r VIII i ddatgysylltu oddi wrth Rufain?
18. I ba raddau yr oedd Cymru'n wlad Brotestannaidd erbyn 1603? *
19. I ba raddau y bu chwyldro crefyddol yn Lloegr yn ystod teyrnasiad Edward VI?
20. I ba raddau y gellid dweud bod Prydain wedi bod mewn cyflwr cyson o argyfwng cymdeithasol o dan y Tuduriaid?
21. Beth oedd achosion y Rhyfel Cartref yn Lloegr?
22. Pa effaith a gafodd dienyddio Charles I ym 1649 ar Loegr yn yr ail ganrif ar bymtheg?
23. I ba raddau yr oedd Rhyfel Cartref Lloegr yn wrthdaro gwirioneddol 'Brydeinig'?
24. A oedd unrhyw beth yn ogoneddus am y 'Chwyldro Gogoneddus'?

Y Cyfnod Modern

25. A gafodd y chwyldro diwydiannol ei yrru gan yr injan stêm?
26. Pa mor bwysig oedd yr Ymerodraeth i'r ffordd yr oedd pobl Oes Fictoria yn eu hystyried eu hunain?
27. A fu gwelliant ym mywydau'r mwyafrif o'r dosbarth gweithiol ym Mhrydain rhwng 1780-1850 oherwydd y Chwyldro Diwydiannol?
28. Pam y gwelwyd 'argyfwng diwygio' ym 1830-2 a phwy a fu fwyaf ar eu hennill yn sgil Deddf Diwygio 1832?
29. Beth oedd amcanion mudiad y Siartwyr ac ym mha ffordd y gwnaethant geisio eu cyflawni?
30. A ddylem ddisgrifio ffeministiaeth yn y 1860au a'r 1870au yn fudiad neu'n rhwydwaith?
31. Pam yr enillodd meddygaeth rym a dylanwad gwleidyddol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg?
32. A gafodd bywydau a statws menywod eu trawsnewid gan y Rhyfel Byd Cyntaf?
33. Pa mor sosialaidd oedd llywodraethau'r blaid Lafur rhwng 1945 a 1951?
34. Pa mor bwysig oedd yr Ymerodraeth i'r economi Brydeinig?
35. I ba raddau y gwnaeth yr Ail Ryfel Byd gynorthwyo India i ennill annibyniaeth?
36. Pam yr oedd polisi Ymreolaeth mor bwysig i'r Blaid Ryddfrydol?
37. Aseswch effaith y Rhyfel Byd Cyntaf ar ddirywiad y Blaid Ryddfrydol a thwf y Blaid Lafur.
38. Pam yr oedd yr 1930au yn 'flynyddoedd diffeithwch' i Churchill?
39. Pam, ac yntau wedi 'ennill y rhyfel', y pleidleisiwyd yn erbyn Churchill ym 1945?
40. Pa mor ddylanwadol oedd Churchill mewn gwleidyddiaeth ym Mhrydain ac yn rhyngwladol ar ôl yr Ail Ryfel Byd?
41. Aseswch arwyddocâd Argyfwng Suez ar wleidyddiaeth gartref Prydain a gwleidyddiaeth ryngwladol.
42. A yw newid cymdeithasol yr 1960au wedi'i orbwysleisio?
43. Pam y cafodd Llafur fuddugoliaeth ysgubol yn etholiad 1997?